OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1814 (Cy.199) (C.74)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 13 Gorffennaf 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf")(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004.

### Y dyddiad a bennwyd ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â Chynllun Gofodol Cymru

**2.** Y dyddiad a bennwyd i adran 60 o'r Ddeddf ddod i rym yw'r 14 Gorffennaf 2004.

### Darpariaeth Drosiannol

**3.** Bydd unrhyw gam a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â darparu Cynllun Gofodol Cymru(**2**), gan gynnwys unrhyw ymgynghoriad gydag unrhyw berson mewn perthynas â darpariaethau'r Cynllun, i'w drin fel un a gymerwyd er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a osodwyd ar y Cynulliad Cenedlaethol gan adran 60 o'r Ddeddf, boed i'r cam hwnnw gael ei gymryd cyn y dyddiad a bennwyd gan erthygl 2 neu ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny.

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) *Gweler* adran 58(1) o'r Ddeddf.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

13 Gorffennaf 2004

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf") yn gosod dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") i baratoi cynllun gofodol (Cynllun Gofodol Cymru), i ymgyhgori gyda'r cyhoedd ar ei ddarpariaethau ac i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dod ag adran 60 o'r Ddeddf i rym ar 14 Gorffennaf 2004.

Gan fod y gwaith o baratoi Cynllun Gofodol Cymru, gan gynnwys ymgynhori â'r cyhoedd arno, wedi'i gychwyn, o dan bwerau cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, cyn fod adran 60 o'r Ddeddf wedi dod i rym, mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu fod camau a gymerwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r cynllun hwnnw cyn i'r adran honno ddod i rym i'w trin, serch hynny, fel camau a gymerwyd yn unol â'r dyletswyddau perthnasol o dan yr adran honno.